| | | |
|---|---|---|
| **IPEDEDEFYN:** | Camddefnyddio Cyffuriau a Sylweddau | Hyd y Wers:<br>Hyd at 60 munud, gyda chaniatâd staff y ganolfan, gan ddibynnu os yw'r wers yn cael ei chyflwyno'n gyfan gwbl, neu mewn rhannau a sut mae'r disgyblion yn ymateb. |
| **CYFNOD ALLWEDDOL:** | CA4 | |
| **GWERS:** | Gwedd Gwallgofrwydd (IPEDau) Cyffuriau Gwella Delwedd a Pherfformiad | |

## NOD

- Hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau a chanlyniadau defnyddio IPEDau

## AMCANION FFRAMWAITH ABCh 2008

- Defnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a rhagfynegi
- Ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol
- Bod yn bendant a gwrthod pwysau digroeso gan gyfoedion a dylanwadau eraill
- Derbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
- Deall y canlyniadau byrdymor a hirdymor wrth wneud penderfyniadau am iechyd personol
- Deall canlyniadau personol, cymdeithasol a chyfreithiol defnyddio sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon

## AMCANION Y WERS

- Hybu ymwybyddiaeth o IPEDau
- Dysgu am y gyfraith a deall beth yw risgiau a chanlyniadau defnyddio IPEDau
- Gwybod ble i fynd am gymorth a chefnogaeth

## GEIRIAU ALLWEDDOL

Delwedd corff, gwella perfformiad, gwella delwedd, canlyniadau

## ADNODDAU

- PowerPoint
- Cardiau i ddiffinio IPEDau
- Geiriau allweddol
- Dalennau mawr o bapur
- Cardiau didoli dulliau diogel ac anniogel (6 set)
- Cardiau senarios (2 set)
- Taflen cefnogi senarios y swyddog

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNIAD

- Sicrhau bod y cysylltiad â'r wers flaenorol yn cael ei nodi'n glir
- Cytuno ar reolau euraidd
- Amlinellu'n glir cytundeb y dosbarth am gyfrinachedd
- Egluro – arddangos y nod, amcanion dysgu'r wers a'r geiriau allweddol
- Adolygu'r diffiniad o gyffuriau

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Diffinio'r term IPEDau
- Gwaith grŵp i adnabod y gwahanol fathau o IPEDau
- Gwaith grŵp: didoli cardiau dulliau diogel/anniogel
- Cyfeirio at gyfraith IPEDau yn yr adborth
- Gwaith grŵp: senarios

### ADOLYGU

- Trafodaeth ddosbarth: delweddau iach ac afiach
- Trafod y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael

### GWEITHGAREDDAU DILYNOL I'R ATHRO/ATHRAWES

Mae mwy o wybodaeth ac adnoddau ar gael yn yr adran i athrawon ar wefan www.schoolbeat.org


Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
TARIAN